



Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso i'r cwrs pontio Mathemateg lefel A!

Ymunwch gyda ni wrth edrych ar ychydig o'r gwaith fydd yn cael ei astudio ar y cwrs lefel A. Fel ysgol, rydym yn parhau i gynnig gwersi Mathemateg Ychwanegol drwy Google Classroom. Isod, fe welwch fod nifer helaeth o adnoddau eraill ar gael i chi, felly ewch ati i gael golwg a gweld beth sy'n eich diddori!

Gwaith Cychwynnol

Rydym eisioes wedi dechrau ar waith pontio rhwng blwyddyn 11 a blwyddyn 12 ar ddsbarth Google Classroom (Mathemateg Ychwanegol). Mae gwersi yn cael eu gosod fesul pythefnos, gyda prawf drwy www.diagnosticquestions.com ar ddiwedd bob cyfnod. Er mwyn ymuno â'r dosbarth, y côd yw **nnn3f2n**.

Gosod gwaith ymchwil

Mae cwrs FMSP Cymru ar gael ar-lein (yn ychwanegol i'r gwersi uchod), gyda gwersi yn cael eu cynnal yn fyw bob pythefnos. Bwriad y cwrs hwn yw paratoi disgyblion blwyddyn 11 at y cwrs lefel A Mathemateg. Os hoffech fod yn rhan o'r cwrs hwn, ymunwch hefo'r dosbarth Google Classroom **nnn3f2n**, ac yna gyrru neges i mi drwy'r dasg FMSP (gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost yn y neges).

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

Mae **Llyfryn Paratoi Cwrs Lefel A** ar gael i chi ar y dosbarth Google Classroom sy'n cynnwys ymarferion i chi baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn ogystal â gwefannau defnyddiol a llyfrau addas.

Os oes angen mwy o ymarfer amoch chi, mae CGP Head Start to A-Level Mathematics ar gael ar hyn o bryd am ddim ar Kindle.

Gwefannau/Cyfrngau Cymdeithasol

• **Hegarty Maths**

Mae amryw o adnoddau ar y wefan ac mae Colin Hegarty hefyd yn cynnal tiwtorialau am ddim i ddisgyblion B11 rhwng nawr a mis Medi! Dilynwch o ar Twitter @hegartymaths.

• **Mathemateg.com** (Iaith Gymraeg)

Amryw o fideos ac adnoddau, gan gynnwys rhai ar gyfer y cymhwyster pontio Mathemateg Ychwanegol o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 12! Dilynwch Dr Gareth Evans ar Trydar @mathemateg.

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Mae nifer o dopigau'r cwrs TGAU haen uwch yn ymddangos eto yn y cwrs lefel A, felly mae'n bwysig eich bod yn hyderus hefo'r gwaith canlynol:

- Rheolau indecsau (gan gynnwys negyddol a ffracsiynol)
Rules of Indices
- Syrdiau *Surds*
- Datrys hafaliadau llinol syml *Solving linear equations*
- Datrys anhafaleddau llinol *Solving inequalities*
- Trigonometreg (y Rheol Sin a Cos) *Trigonometry (Sine and Cosine rules)*
- Ffactorio cwadratig (gan gynnwys ffactorio pan fo $a > 1$)
Quadratic Factorisation
- Trawsffurfiadau graffiau *Graph transformations*

